GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHIO MEWN MEYSYDD DATGANOLEDIG

84 - Rheoliadau Ystadegau'r DU (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019

Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 24 Ionawr 2019

Sifftio	
A fydd angen eu sifftio yn Senedd y DU?	Oedd
Gweithdrefn:	Negyddol arfaethedig
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin	5 Chwefror 2019
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi	yr wythnos yn dechrau
Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU	12 Chwefror 2019
Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C:	Papur 11
Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd ei fod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol)	Papur 12
Gweithdrefn graffu	
Canlyniad y broses sifftio	Ddim yn hysbys
Y weithdrefn	Negyddol neu Gadarnhaol
Dyddiad trafod gan y Cyd-bwyllgor ar Offerynnau Statudol	Ddim yn hysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin	Ddim yn hysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi	Ddim yn hysbys

Sylwadau

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adran 8(1) a pharagraff 21 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

Mae'r Rheoliadau hyn yn cywiro diffygion mewn deddfwriaeth sy'n deillio o ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd mewn perthynas â darparu gwybodaeth ystadegol. Yn benodol, mae'r offeryn hwn:

- Yn diwygio Deddf Ystadegau a'r Gwasanaeth Cofrestru 2007 er mwyn sicrhau bod cyfeiriadau at gyfraith yr UE yn cael eu newid i gyfeirio at gyfraith gyfatebol briodol yr UE a ddargedwir;
- Yn diwygio un Ddeddf a phedwar offeryn statudol fel bod y cyfeiriadau at rai safonau Ewropeaidd yn parhau i gyfeirio at yr UE, yn hytrach na'r fersiwn o'r safonau hynny a ddargedwir gan yr UE; a

- Yn dirymu'r rhan fwyaf o ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir sy'n:
  (a) pennu trefniadau'r UE o ran y modd y dylai Aelod-wladwriaethau lunio data ystadegol, a'r modd y dylai Eurostat drosglwyddo data ystadegol; a
  (b) pennu safonau a dosbarthiadau technegol mewn perthynas â rhai data ystadegol, ynghyd â chyfraith gyfatebol berthnasol yng nghytundeb yr AEE a ddargedwir.

Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn cytuno â'r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 29 Ionawr 2019 ynghylch effaith y Rheoliadau hyn.

Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn ystyried bod unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

Nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol wedi nodi unrhyw reswm cyfreithiol i geisio cynnig cydsyniad o dan Reol Sefydlog 30A.10 mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.